**Nyrsys Arbenigol Epilepsi Plant**

**Rhif Ffôn y Ddesg Dderbyn (Swyddfa):- 01633 234128**

**Nyrsys Arbenigol Epilepsi Plant**

Bydd pob plentyn o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd ag epilepsi yn cael cynnig y cyfle i gyfarfod â Nyrs Arbenigol Epilepsi Plant. Mae gennym nyrsys arbenigol sy'n gwasanaethu ardaloedd Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen a rhannau o Bowys.

Eich nyrsys arbenigol epilepsi plant yn BIPAB yw:

- Hannah Pennington
- Jenny Barber
- Emma Verrier
- Laura Turp

Beth allwn ni gynnig?

- Ein rôl ni yw bod yn gyswllt rhwng teuluoedd, gofalwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.
- Cynnal clinigau dan arweiniad nyrsys ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis, gwasanaethau pontio, adolygu cynlluniau gofal brys a galwadau cymorth.
- Cynnig hyfforddiant i rieni, gofalwyr, staff addysg a staff seibiant ar ymwybyddiaeth am epilepsi a sut i roi meddyginiaeth frys.
- Bod yn bwynt cyswllt, trwy ddesg dderbyn ein nyrsys arbenigol epilepsi plant.

Mae'r ddesg dderbyn yn bwynt cyswllt rhwng cleifion, gweithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a gwasanaethau Epilepsi. Mae'n gweithredu trwy wasanaeth peiriant ateb. Bydd galwad yn ôl yn cael ei gwneud er mwyn cynnal asesiad nyrsio a bydd hyn yn cael ei frysbennu gan nyrs arbenigol epilepsi plant hyfforddedig o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn y neges (ac eithrio gwyliau banc).

Gellir cysylltu â'r ddesg dderbyn ar gyfer trawiadau diweddar, i holi am feddyginiaethau, cynllunio gofal, hyfforddiant, pryderon am gefnogaeth a chyngor a cheisiadau am ddogfennaeth.

Wrth gysylltu, gadewch neges ar ôl y tôn gydag enw, dyddiad geni a rhif cyswllt eich plentyn ynghyd â disgrifiad byr o’r rheswm am eich galwad.

Ar ôl eich brysbennu, efallai y bydd nyrs arbenigol yn rhoi cefnogaeth a chyngor neu efallai y bydd eich galwad yn cael ei huwchgyfeirio at eich ymgynghorydd epilepsi penodedig.

Os ydych chi'n lleoliad sy'n cysylltu ar gyfer derbyn cyngor neu gefnogaeth gyda Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol neu i archebu lle ar hyfforddiant, bydd eich nyrs epilepsi penodedig yn cysylltu â chi o fewn 10 diwrnod gwaith.

**Os oes gennych ymholiad brys, ewch i'ch Adran Achosion Brys neu at eich Meddyg Teulu lleol**

Manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth neu gymorth:

Epilepsy Action
New Anstey House, Gateway Drive, Leeds, LS19 7XY
Llinell gymorth am ddim: 0808 800 5050
Gwefan: www.epilepsy.org.uk

Roald Dahl's Marvellous Children's Charity
17, Chiltern Business Centre, 63-65 Woodside Rd, Amersham HP6 6AA
E-bost: enquiries@roalddahlcharity.org
Anfonwch neges destun at: "SUPPORT" i 60002
Llinell gymorth: 01494 890 465
Gwefan: https://www.roalddahlcharity.org/

Epilepsy Society- Y Gymdeithas Epilepsi
Chalfront Centre for Epilepsy, Chalfront St Peter,
Gerrards Cross, SL9 0RJ
Llinell gymorth: 01494 601 400
Gwefan: www.epilepsysociety.org.uk

Young Epilepsy
St Pier's Lane, Dormansland, Lingfield, RH7 6PW
Llinell Gymorth: 01342 831342
Gwefan: www.youngepilepsy.org.uk

**Mae'r wybodaeth hon ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg. Gellir ei darparu hefyd mewn ieithoedd eraill, print bras, a fformatau gwahanol ar gais.**